

## Countryside Code

Please follow the Countryside Code and always remember to:

### Respect other people

- Consider the local community and other people enjoying the outdoors
- Give wild animals, livestock and horses plenty of space, especially when they are with their young
- Leave gates and property as you find them
- Keep to marked paths and trails

### Protect the natural environment

- Leave no trace of your visit and take your litter home
- Keep dogs on leads and always clear up after them
- Never pick or uproot plants

### Enjoy the outdoors

- Plan ahead and be prepared
- Follow advice and local signs

## Y Còd Cefn Gwlad

Dilynwch y Còd Cefn gwlad a cofiwch y canlynol:

### Parchwch bobl eraill

- Ystyriwch y gymuned leol a'r bobl eraill sy'n mwynhau'r awyr agored
- Gadewch ddigion o le rhyngoch a'r anifeiliaid gwyllt, y da byw a cheffylau, yn enwedig pan maent hefo'u ifanc
- Gadewch bob giât ac eiddo fel rydych yn eu canfod nhw
- Cadwch at y llwybrau a thraciau sydd wedi eu dynodi

### Gwarchodwch yr amgylchedd naturiol


- Peidiwch â gadael unrhyw olion o'ch ymweliad ac ewch â'ch sbwriel adref hefo chi
- Cadwch gŵn ar dennyn a chofiwch glirio ar eu holau
- Peidiwch byth â chasglu na diwreiddio planhigion

### Mwynhewch yr awyr agored

- Cynlluniwch o flaen llaw a byddwch yn wylidwrsu
- Dilynwch gyngor ac arwyddion lleol



## Location / Lleoliad



Gors Maen Llwyd lies at the northern end of Llyn Brenig, 7 miles SW of Denbigh and 4 miles N of Cerrigydrudion. Both car parks are accessible from the B4501: one immediately from the road (SH 970 580) and one down a short track, near the bird hide (SH 983 574). **OS Explorer Map OL18**

Mae Gors Maen Llwyd ym mhen gogleddol Llyn Brenig, 7 milltir i'r de orllewin o Ddinbych a 4 milltir i'r gogledd o Gerrigydrudion. Mae'r ddau faes parcio'n hwylyu i'w cyrraedd o'r B4501: un yn syth o'r ffordd (SH 970 580) ac un i lawr trac byr, ger y guddfan adar (SH 983 574). **Map Explorer OS OL18**



**North Wales  
Wildlife Trust**  
Ymddiriedolaeth Natur  
Gogledd Cymru

[www.northwaleswildlifetrust.org.uk](http://www.northwaleswildlifetrust.org.uk)



**North Wales Wildlife Trust**  
Llys Garth,  
Garth Road, Bangor,  
Gwynedd, LL57 2RT

01248 351 541  
[info@northwaleswildlifetrust.org.uk](mailto:info@northwaleswildlifetrust.org.uk)

Registered Charity Number: 230772 / Company Number 773995



GWARCHODFA NATUR

# Gors Maen Llwyd

NATURE RESERVE



SKYLARK © HENRY COOK

GUY EDWARDS 2020VISION

## Stay in touch!

Visit our website for the latest updates and sign up today for your free e-newsletter

## Cadwch mewn cysylltiad!

Ewch i'n gwefan ni am y newyddion diweddaraf a chofrestrwch i dderbyn ein e-gylchlythyr am ddim

[www.northwaleswildlifetrust.org.uk](http://www.northwaleswildlifetrust.org.uk)

[www.northwaleswildlifetrust.org.uk](http://www.northwaleswildlifetrust.org.uk)

## Wonderfully wild Wales ...

In spring, head out through the heather and onto the moor at dawn and you could experience the bubbling call of male black grouse lekking. Then, as the sun rises over the Clwydian Range to the east, the distinctive, peaty moorland aroma fills the air along with the calls of curlew, skylark and cuckoo heralding the new day. Gradually, as panoramic views are revealed, the serene sensation of being alone in a huge, wild landscape unfolds.

Gors Maen Llwyd, bordering Llyn Brenig, is one of the Wildlife Trust's largest nature reserves and comprises upland heath, blanket bog and wetland filled with sphagnum moss, bogbean and cranberry. In summer, sand martins nest in large colonies along the edge of the reservoir, their constant coming and going providing the backdrop to any summertime stroll.

## Cymru wyllt a rhyfeddol ...

Yn y gwanwyn, ewch allan drwy'r grug ac ar y rhos fel mae'r wawr yn torri ac fe gewch chi brofi cri fyrlymus gwryw y rugiar ddu yn paru. Wedyn, wrth i'r haul godi dros Fryniau Clwyd i'r dwyrain, mae arogl rhostir mawnog, nodedig yn llenwi'r awyr, a chri'r gylfinir, yr ehedydd a'r gog yn cyhoeddi bod diwrnod newydd ar droed. Yn raddol, wrth i'r golygfeydd panoramig ddod i'r golwg o dywyllwch y nos, mae'r ymdeimlad tangnefeddus o fod ar eich pen eich hun yng nghanol y dirwedd wyllt, enfawr yma'n gwawrio arnoch chi.

Gors Maen Llwyd, sy'n ffinio â Llyn Brenig, yw un o warchodfeydd natur mwyaf yr Ymddiriedolaeth Natur ac mae'n cynnwys rhos yr ucheldir, gorgors a gwlybdir yn llawn mwsoglau sfagnwm, ffa'r gors a llugaeron. Yn yr haf, mae gwenoliaid y glennydd yn nythu mewn poblogaethau mawr ar hyd ymyl y gronfa ddŵr, gyda'u mynd a dod cyson yn gefndir bob amser wrth i chi fynd am dro yn ystod yr haf.



LIN CUMMINS

Become a **mammal detective!** Fifteen species of mammal have been recorded at the reserve, and it's a great place to look for their tracks and signs (including their pool!).

JIM HIGHAM



Hoffwch **fod yn dditectif!**

Ar y warchodfa mae pymtheg rhywogaeth o famaliaid wedi cael eu cofnodi, ac mae'n le gwych i edrych am eu holion traed ac arwyddion eraill (yn cynnwys eu pŵ!).

**Osprey**, on a nearby platform, can easily be seen from the southern end of the reserve. You may get to see their powerful feet pluck a fish from the lake – without missing a wing beat!

GARY JONES PHOTOGRAPHY



O ben ddeheuol y warchodfa fe allwch weld, yn hawdd iawn, **weilch y pysgod**, ar y platform cyfagos. Efallai gewch weld eu traed nerthol yn plycio pysgodyn o'r llyn – heb fethu un curiad o'i hadenydd!



ANDREW PARKINSON

Take a flask and wrap up warm in February-March and you may be lucky enough to see the amazing, synchronised courtship dance of the **great crested grebe**.

Os am droi allan rhwng fis Chwefror a fis Mawrth cofiwch wisgo digon o ddillad ac awgrymwn eich bod yn mynd a fflasg hefo chi, mi all fod y tywydd yn oer, ac efallai y byddech yn ddigon ffodus i weld y ddawns cydamserol paru anhygoel y **gwych fawr gopog**.



STEFAN JOHANSSON

In spring and summer you can easily spot male **skylarks** rising almost vertically from the moorland. They hover effortlessly, singing from a great height, before parachuting back down to earth. These long and complicated song-flights can last for up to an hour and the birds can reach 300m before descending.

Yn y gwanwyn a'r haf mae'n hawdd sylwi ar **ehedyddion** yn codi, mwy na heb, yn unionsyth o'r rhostir. Maent yn hofran yn ddiymdrech, yn canu o uchder maith, cyn parasiwtio yn ôl i'r ddaear. Fe all y can-hediadau cymhleth yma barhau am hyd i awr ac mae'r adar yn gallu cyrraedd uchder o rhyw 300m cyn disgyn yn ôl.

# Key / Canllaw

- P** Parking / Parcio
- E** Entrance / Mynediad
- Hide / Cuddfan
- Deciduous / Coll-ddail
- Coniferous / Conifer
- Reeds / Brwyn
- Reserve boundary / Terfyn y warchodfga
- Public footpath / Llwybr cyhoeddus
- Permissive path / Llwybr canitaol

Grassland / Glaswelltir	Open water or brackish water / Dŵr agored neu dŵr led hallt
Coniferous woodland / Coedwig conifer	Heathland / Rhostir

## Access and safety

The site is exposed and isolated, and mobile phone signal is patchy. Paths are uneven in places and suitable footwear is recommended. Although the site consists of open-access land, please keep to the paths to avoid disturbance to wildlife, particularly ground-nesting birds.

## Mynediad a diogelwch

Mae hwn yn safle agored ac anghysbell heb signal ffôn symudol cyson. Mae'r llwybrau'n anwastad mewn manau ac mae'n rhaid gwisgo esgidiau addas. Er bod y safle'n cynnwys tir mynediad agored, cadwch at y llwybrau os gwelwch yn dda, rhag tarfu ar y bywyd gwylt, yn enwedig yr adar sy'n nythu ar y ddaear.



Contains Ordnance Survey data  
© Crown copyright and database right 2013

## Managing for wildlife

This area of upland has been 'managed' by people for thousands of years. Ancient Britons removed forest to provide more grazing whilst, in the early 1900s, the moor was maintained for grouse shooting. The Wildlife Trust is trying to manage the landscape in a more natural way by keeping areas of varying habitats. Small areas of heather are cut on rotation – in wavy shapes to better blend into the landscape – to keep the age structure diverse, whilst sheep graze the site during spring and summer to keep the heather in good condition. Conifer encroachment from surrounding plantations is kept in check.



JON HAWKINS, SURREY HILLS PHOTOGRAPHY

## Rheoli Bywyd Gwylt

Mae'r ardal hon yn yr ucheldir wedi bod yn cael ei 'rheoli' gan bobl ers miloedd o flynyddoedd. Bu'r Hen Frythoniaid yn cael gwared ar fforestydd er mwyn darparu mwyn o le i bori ac, ar ddechrau'r 1900au, cafodd y rhos ei gynnal a'i gadw ar gyfer saethu grugieir. Mae'r Ymddiriedolaeth Natur yn ceisio rheoli'r dirwedd mewn ffordd fwy naturiol drwy gadw ardaloedd o gynefinoedd amrywiol. Mae ardaloedd bychain o rug yn cael eu torri ar gylchdro – mewn siapiau tonnog i fod yn llai amlwg ar y dirwedd – er mwyn cadw'r strwythur oedran yn amrywiol, ac mae defaid yn pori'r safle yn ystod y gwanwyn a'r haf er mwyn cadw'r grug mewn cyflwr da. Rydym yn cadw llygad ar ymlediad y conwydd o'r planhigfeydd cyfagos.

### SPRING

Black grouse >  
Emerging adder  
Brown hare

### GWANWYN

Grugiar ddu >  
Gwiber yn diosg ei chroen  
Ysgyfarnog



MARGARET HOLLAND

### SUMMER

Bog asphodel >  
Sedges  
Skylark

### HAF

Llafn y bladur >  
Hesg  
Ehedydd



PHILIP PRECEY

### AUTUMN

Heather >  
Cranberry  
Redwing

### HYDREF

Grug >  
Llugaeron  
Coch dan adain




ROSS HODDINOTT

### WINTER

Great crested grebe >  
Goosander  
Morning mist

### GAEAF

Gwyach fawr gopog >  
Hwyaden ddanheddog  
Niwl y bore



ELLIOT SMITH

## We need your support!

This nature reserve is one of more than 30 owned or managed by North Wales Wildlife Trust. By working with other landowners, managers and communities we aim to restore, recreate and reconnect fragmented natural habitats to achieve a landscape where wildlife can flourish and people can lead happier and healthier lives.

We are an independent, local charity, reliant on the support of our members and other donations. **Please help us if you can.**

- ✓ **Become a member** for just a few pounds a month
- ✓ **Volunteer** – whether here or at one of our 35+ other nature reserves
- ✓ **Consider a Living Legacy** – a gift in your Will, whether small or large, would leave your footprint in our landscape forever



## Da ni angen eich cefnogaeth!

Un o mwy na 30 Gwarchodfa Natur sydd yn berchen i, neu sydd yn cael eu rheoli gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Trwy weithio gyda thirfeddianwyr, rheolwyr a chymunedau rydym yn anelu i adfer, ail greu ac ailgysylltu cynefinoedd rhanedig er mwyn cyflawni tirwedd ble all fywyd gwylt ffynnu a ble all pobl fyw bywydau fwy iachus a hapus.

Rydyn ni'n elusen annibynnol, leol sy'n dibynnu ar gefnogaeth ein haelodau a rhoddion eraill. **Plis helpwch ni os yw hynny'n bosib.**

- ✓ **Dod yn aelod** am ddim ond ychydig bunnoedd bob mis
- ✓ **Gwirfoddolwr** – yma neu yn un o'n 35+ o warchodfeydd natur eraill
- ✓ **Ystyried Gwaddol Byw** – byddai rhodd yn eich Ewyllys, boed fach neu fawr, yn gadael ôl eich troed ar ein tirwedd am byth